Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llandrindod

**Ysgol Trefonnen**

**Llandrindod**

**Powys**

**LD1 5EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Llandrindod yn Ysgol Trefonnen – ysgol newydd a agorwyd yn 2011. Mae`r Cylch yn defnyddio dosbarth a adeiladwyd yn bwrpasol gydag ardal ddiogel o darmac tu allan gerllaw. Er fod y Cylch wedi`i hen sefydlu yn Llandrindod, dim ond ers 2011 mae wedi symud i`w leoliad cyfredol. Mae`r arweinydd presennol wedi ymgymryd â`i swydd yn Ionawr 2012. Mae`r Cylch yn gweithredu`n annibynnol o`r ysgol ac yn cael ei reoli gan bwyllgor rheoli gwirfoddol, fodd bynnag, mae`n elwa`n sylweddol o fod yn agos i`r ysgol a drws nesaf i ddosbarth derbyn yr ysgol.

Mae`r Cylch yn darparu addysg gyfrwng Gymraeg ar gyfer plant ac mae llawer ohonynt yn mynd ymlaen i dderbyn addysg o fewn ffrwd Gymraeg Ysgol Treffynnon. Er bod yr ardal ar yr olwg gyntaf yn ymddangos yn un sy`n gymharol ffyniannus, mae yna ardaloedd o amddifadedd. Mae`r plant sy`n dod i`r Cylch yn dod o gefndiroedd gwahanol – rhai o gartrefi sy`n gymharol ddifreintiedig. Ar hyn o bryd, mae 20 o blant ar y gofrestr, ac mae 10 ohonynt yn 3 oed ac yn cael eu hariannu. Mae pob un yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf ac mae un yn mynychu ysgol leol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn rhan amser.

Mae`r Cylch ar agor am 5 bore`r wythnos rhwng 9.15 y.b. a 11.45 y.b yn ystod tymor yr ysgol. Mae gan y Cylch ei fynedfa ei hun drwy ardal chwarae`r plant. Mae cyntedd bach yn arwain at y dosbarth sy`n darparu lle ar gyfer hongian cotiau a chyfleusterau toiled. Mae hysbysiadau ar gyfer rhieni yn cael eu harddangos yma hefyd. Mae`r prif ddosbarth yn ddymunol, yn gynnes ac yn amgylchedd gyda digon o olau. Mae`r Cylch yn defnyddio`r ystafell bob bore a`r Feithrinfa cyfrwng Saesneg yn y prynhawn.

Mae`r brif ystafell yn cael ei gwahaniaethu i ardaloedd gwahanol yn seiliedig ar ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae arddangosfeydd o waith plant ar y wal. Mae cegin fach yn cael ei defnyddio i baratoi byrbrydau. Mae gan y prif ystafell fynediad uniongyrchol i`r tu allan sy`n caniatáu plant i ddefnyddio`r tu allan o`u dewis os ydy`r tywydd yn ffafriol.

Mae tri aelod o staff sydd â phrofiad a chymwysterau da. Mae pob un yn siarad Cymraeg. Mae`r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac yn ymwybodol iawn o`r gweithgareddau sy`n cael eu cynnal gan y Cylch. Mae`r cadeirydd yn ymgymryd â gwerthusiad blynyddol o`r staff. Mae cysylltiadau da sy`n datblygu gyda`r ysgol gynradd. Mae`r cysylltiadau â Mudiad Ysgolion Meithrin a Phartneriaeth Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Powys wedi`u hen sefydlu. Mae`r staff yn gwerthfawrogi cefnogaeth y sefydliadau hyn.

Cafodd y Cylch ei arolygu`n flaenorol gan Estyn yn 2006. Ers hyn, mae`r staffio a`r lleoliad wedi newid ond mae`r Cylch wedi mynd i`r afael â`r materion allweddol oedd yn yr adroddiad. Cafodd y Cylch ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Rhagfyr 2011 ar ôl symud i`w leoliad presennol. Mae`r Cylch wedi`i gofrestru i dderbyn i fyny at 15 o blant. Mae`r Cylch wedi llwyddo i gael statws Cylch Rhagorol gan Fudiad Ysgolion Meithrin.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Nodweddion da

- Mae`r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig.
- Mae`r holl blant yn mwynhau dysgu ac yn dangos ymddygiad ac agweddau da.
- Caiff yr holl blant ofal a chefnogaeth dda ac mae`r Cylch yn hyrwyddo iechyd a lles y plant.
- Mae`r Cylch yn dangos ethos gynhwysol lle caiff yr holl blant eu gwerthfawrogi a`u parchu.
- Mae staff y Cylch yn cyd-weithio`n dda iawn ac mae eu gwaith yn canolbwyntio`n dda ar gynnig y ddarpariaeth addysgol orau ar gyfer y plant.
- Mae`r cynllunio yn ystyried diddordebau`r plant ac yn ffocysu`n dda ar ddatblygu deilliannau`r  Cyfnod Sylfaen.

Nodweddion digonol

- Y ddarpariaeth ar gyfer datblygu gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg.
- Y defnydd o ganlyniadau asesu ar gyfer cynllunio gweithgraeddau yn y dyfodol er mwyn diwallu anghenion pob plentyn unigol yn llawn.
- Mae`r amgylchedd yn dysgu yn ddigonol o ran cynnig gweithgareddau ysgogol a heriol ar gyfer y plant.

### Rhagolygon gwella

Nodweddion da

- Parodrwydd staff i dderbyn syniadau newydd a sut mae syniadau tebyg wedi`u cynnwys ar gyfer lles y plant.
- Y ddogfen hunanarfarnu fanwl sy`n nodi cryfderau`r Cylch.
- Mewnbwn sylweddol yr arweinydd newydd a`r effaith ar y ddarpariaeth addysgol.
- Y berthynas gynnes ac effeithiol rhwng staff y Cylch.
- Y cysylltiadau da sy`n bodoli rhwng y Cylch a`r ysgol gynradd.

Nodweddion digonol

- Mae meysydd i`w gwella wedi`u nodi ond nid yw`r cynllunio ar gyfer eu datblygu wedi datblygu digon.

## Argymhellion

Mae angen i’r Cylch:

A1 roi fwy o bwyslais ar ddatblygu`r iaith Gymraeg;

A2 gwenud mwy o ddefnydd o ganlyniadau asesu wrth gynllunio, fel bod gweithgareddau`n cael eu gweddu`n dda ag anghenion y plant;

A3 adolygu`r amgylchedd dysgu er mwyn darparu profiadau ysgogol ar gyfer y plant a gweithgareddau heriol lle`n bosib;

A4 blaenoriaethu a chynllunio`n ofalus ar gyfer gwella i`r dyfodol.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y Cylch yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y Cylch.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob un o`r plant yn gwneud cynnydd realistig ac yn cyflawni safonau da. Nodwedd da a nodedig yw dyfalbarhad y plant, maen nhw`n canolbwyntio ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Mae gan bron pob un o`r plant yr hyder i wneud dewisiadau ac i weithio`n annibynnol.

Mae pob un o`r plant yn gwneud yn siwr bod eraill yn eu deall. Maen nhw`n mynegi eu teimladau ac yn gwrando ar oedolion ac yn fodlon i ddilyn cyafrwyddiadau. Mae nifer o`r plant yn edrych am gyfleoedd i helpu oedolion, fel wrth glirio i ffwrdd ar ddiwedd sesiwn y bore.

Mae llawer o`r plant yn mwynhau arbrofi â chreu marciau ac yn datblygu rheolaeth dda o benseli, sialc a pheniau ffelt.

Mae gan bob un o`r plant feistrolaeth dda o`r iaith Saesneg ond yn llai hyderus yn y Gymraeg. Maen nhw`n deall cyfarwyddiadau sylfaenol ac yn ymwybodol o rai geiriau ac ymadroddion yn y Gymraeg. Maen nhw`n deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad. Mae pob un o`r plant yn hapus i ail-adrodd rhai geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac i ymuno mewn caneuon Cymreig. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn ymateb i gwestiynau sylfaenol. Drwyddi draw, mae`r plant yn amharod i ddefnyddio`r iaith Gymraeg i sgwrsio ac mae eu geirfa yn gyfyngedig. Fodd bynnag, daw pob plentyn o gartrefi lle siaredir Saesneg ac mae llawer yn gwneud cynnydd realistig mewn perthynas â`u man cychwyn.

Mae pob plentyn yn defnyddio iaith fathemategol ac yn dysgu cyfrif. Mae llawer o blant yn medru dilyn patrwm, fel patrwm lliw ac yn deall sut i ddilyniannu gwrthrychau.

Mae llawer o blant yn ddefnyddwyr hyderus o`r cyfrifiadur ac mae ganddynt ddigon o reolaeth o`r "lygoden" i symud y cyrchwr yn ddigon cywir er mwyn creu patrymau a symud delweddau ar sgrîn.

**Lles: Da**

Mae pob un o`r plant yn dangos eu bod yn mwynhau dysgu gan gynryd rhan weithredol yn y tasgau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae eu hunan hyder yn eu galluogi i wneud dewisiadau, i weithio`n annibynnol ac i ofyn am gymorth yn ôl yr angen. Mae gan bob un o`r plant agweddau da ac yn ymddwyn yn dda. Maen nhw`n ystyriol ac yn gwrtais â`i gilydd ac yn uniaethu ag oedolion yn dda.

Mae `r rhan fwyaf o`r plant yn dechrau cael dealltwriaeth, yn unol â`u hoedran, o sut i gadw`n iach. Maen nhw`n ymwybodol o`r angen i olchi eu dwylo cyn bwyd ac yn mwynhau gweithgaredd corfforol. Mae pob un o`r plant yn nodi eu bod yn teimlo`n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth gam-drin geiriol yn y lleoliad.

Mae pob un o`r plant yn cydweithredu`n dda ac yn gwneud dewisiadau sylfaenol am eu bywyd o fewn y lleoliad, fel ble i chwarae a dewis gweithgareddau sy`n eu diddori.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r cynllunio yn fanwl ac yn canolbwyntio`n dda ar fodloni deilliannau cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r ymarferwyr yn cydweithio i gynllunio ac mae`r gweithgareddau yn llwyddiannus iawn o ran ennyn diddordeb y plant. Mae`r gweithgareddau`n annog plant i gydweithio gyda digon o gyfleoedd i`r plant wneud dewisiadau ac i weithio`n annibynnol yn ôl eu dewis. Mae`r cynllunio yn cynnwys cyfleoedd i`r plant ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol ac i ddatblygu dealltwriaeth o`r byd o`u cwmpas.

Mae pob un o`r plant yn ennill medrau a fydd yn eu galluogi i wneud cynnydd ymhob maes dysgu, ond nid oes digon o ffocws ar adeiladu`n sytematig ar wybodaeth , dealltwriaeth a medrau presennol y plant. Nid yw`r gweithgareddau sy`n cael eu cynllunio bob tro`n canolbwyntio`n ddigonol ar y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol er mwyn darparu ar gyfer anghenion a gallu unigol plant. Yn yr un modd, mae hyn yn wir am y datblygiad o eirfa Gymreig y plant a sefydlu patrymau iaith.

Mae traddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru yn cael eu cynnwys yn dda ym mhrofiadau dysgu`r plant. Darperir cyfleoedd hefyd i`r plant ddysgu am ail-gylchu deunyddiau fel gwastraff bwyd.

**Addysgu: Da**

Mae`r ymarferwyr yn brofiadol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o datblygiad plentyn ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae`r oedolion yn gwerthfawrogi`r plant yn fawr ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt, yn nhermau datblygiad personol ac addysgol. Mae`r disgwyliadau hyn yn cael eu gwireddu i raddau helaeth yn ymarferol.

Mae`r cynllunio yn darparu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion ac mae hyn yn gweithio`n dda yn ymarferol. Mae`r ymarferwyr yn gwybod yn dda iawn pryd i ymyrryd a phryd i adael plant i weithio`n annibynnol neu mewn grwpiau bach.

Rheolir ymddygiad y plant yn dda iawn gan ddefnyddio canmoliaeth yn effeithiol. Mae`r oedolion yn fodelau iaith dda sy`n darparu sylfaen dda ar gyfer datblygu

medrau ieithyddol y plant yn yr iaith Gymraeg.  Mae cwestiynu yn cael ei ddefnyddio`n dda i ddatblygu medrau meddwl y plant.

Mae`r plant yn cael eu hasesu yn rheolaidd – mae oedolion yn cofnodi eu harsylwadau ac mae`r rhain yn cael eu trosglwyddo i lyfr cofnod asesu plant unigol yn wythnosol.  Er bod hyn yn darparu cofnod cyflawniad, weithiau mae`r sylwadau yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn nodi`n ddigonol yr hyn mae`r plentyn yn medru ei wneud, er enghraifft o ran medrau mae`r plentyn wedi`u dysgu.  Mae`r staff yn adnabod y plant yn dda gan wybod eu gallu yn dda ond nid yw deilliannau`r asesu yn cael eu defnyddio`n ddigonol i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol fel bod gweithgareddau yn bodloni anghenion y plant ac yn canolbwyntio ar y camau nesaf yn y dysgu .

Caiff rhieni gysylltiad rheolaidd gyda`r staff ac mae hyn yn rhoi cyfleoedd iddynt drafod cynnydd eu plant.  Mae hysbysiad sy`n cael ei arddangos tu allan i`r Cylch yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau`r wythnos i`r rhieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae darpariaeth y Cylch ar gyfer iechyd a lles plant, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae`r Cylch yn ymledu awyrgylch llonydd a chefnogol sy`n meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch am wirionedd.  Mae canllawiau clir ac ymyrraeth gan oedolion yn ôl yr angen yn helpu`r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir.  Mae pob un o`r plant yn hapus i gymryd cyfrifoldeb ac mae llawer yn dangos blaengarwch, fel helpu oedolion pan gânt cyfle.

Mae ymweliadau â`r gymuned agos yn datblygu chwilfrydedd y plant a dealltwriaeth o bethau byw.  Maen nhw`n datblygu synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o`u cwmpas fel wrth weld lle gellir dod o hyd i drychfilod.  Mae pob un o`r plant yn deall ac yn defnyddio rheolau ymddygiad sy`n galluogi`r Cylch i arddangos awyrgylch tawel lle caiff unigolion eu gwerthfawrogi.

Mae`r plant yn cael digon o gyfleoedd i gyfrannu at wneud penderfyniadau ac i ddilyn eu diddordebau.

Defnyddir gwasanaethau arbenigol yn briodol a chefnogir plant sydd angen cymorth arbenigol yn dda.  Mae`r plant sy`n cael eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad llawn i bob maes dysgu.  Roedd rhieni wedi siarad yn dda am y gefnogaeth oedd ar gael.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y plant.  Mae gan aelod o`r staff gyfrifoldeb dros ddelio â diogelwch plant a materion diogelu.  Mae`r staff wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar ac yn gyfarwydd â gweithdrefnau diogelu plant.  Mae`r polisïau a`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008).

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae`r lleoliad yn gymuned hollol gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i`r cwricwlwm. Mae pob un o`r plant a`r staff yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion gan sicrhau agwedd oddefgar a chael gwared o unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Pa beth bynnag bo`u cefndir, anableddau neu ofynion, mae`r plant yn cael eu parchu gan ddod yn rhan annatod o`r gymuned.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n briodol ag ymarferwyr profiadol â chymwysterau da. Maen nhw`n cydweithio`n dda â`i gilydd ac mae eu cyfraniad yn canolbwyntio`n dda ar anghenion y plant.

Ar y cyfan, mae`r adnoddau yn ddigonol i fodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae gan y Cylch ddefnydd o ystafell fawr a adeiladwyd yn bwrpasol gyda mynediad uniongyrchol i`r tu allan. Yn ogystal, mae`r Cylch yn elwa o fynediad i gyfleusterau`r ysgol yn yr awyr agored. Nid yw`r cyfleusterau, fodd bynnag, yn arbennig o ddychmygus ac mae diffyg gweithgareddau sy`n cyffroi a herio`r plant. Byddai gweithgareddau rhyngweithiol ymhellach yn fuddiol i ymestyn profiadau`r plant.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Adeg yr arolygiad, roedd yr arweinydd wedi dal y swydd ers llai na 2 fis. Fodd bynnag, mae hi wedi gweithio`n llwyddiannus gyda`i dwy gyd-weithwraig i ffurfio tîm effeithiol gyda disgwyliadau uchel. Mae pob un o`r staff yn deall eu rolau a`u cyfrifoldebau yn llawn gan weithio gyda synnwyr o ddiben. Mae`r tîm yn rhannu gwerthoedd ac yn creu ethos bositif sy`n canolbwyntio ar anghenion plant. Mae cysylltiadau effeithiol ar waith gyda rhieni a gofalwyr a gwna hyn gyfraniad pwysig i addysg y plant.

Mae`r pwyllgor rheoli gwirfoddol yn effeithiol iawn yn ei gefnogaeth o waith y Cylch. Mae`r cadeirydd wedi hen sefydlu yn ei swydd a thrwy ymweld â`r Cylch yn rheolaidd, mae`n ymwybodol iawn o`i waith. Yn ddiweddar, mae`r pwyllgor wedi bod yn allweddol drwy apwyntio staff a goruchwylio datblygiad y Cylch. Mae`r pwyllgor rheoli yn deall eu rolau ac wedi rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad diweddar. Maen nhw`n cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.

Mae`r Cylch wedi cymryd ystyriaeth dda o flaenoriaethau cendlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chymryd ystyriaeth o Fentrau Bwyta`n Iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae`r ddogfen hunanarfarnu wedi nodi cryfderau`r Cylch a meysydd i`w gwella. Fodd bynnag, oherwydd apwyntiad diweddar yr arweinydd, nid yw meysydd i`w gwella wedi`u blaenoriaethu na strategaethau ar gyfer gwella wedi cael eu gweithredu.

Mae`r staff wedi mynychu cyrsiau datblygiad proffesiynol perthnasol sydd wedi bod yn ddefnyddiol ac yn fanteisiol yn nhermau cynnydd a lles plant. Maen nhw wedi cael effaith dda ar ansawdd darpariaeth y Cylch.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas dda rhwng y Cylch, rhieni a gofalwyr. Fel arfer, mae`r rhieni yn ymweld â`r Cylch cyn i`w plant fynychu ac mae`r Cylch yn rhoi ffolder o wybodaeth ddefnyddiol i rieni. Mae`r rhieni yn dod gyda`u plant i`r Cylch ac yn eu helpu i setlo. Yn ystod yr arolygiad arsylwyd bod y plant yn hapus iawn yn dod i`r Cylch. Roedd yr arweinydd wedi cyfarch pob plentyn a rhiant ac roedd y plant yn mynd i`r afael â`r gweithgareddau ar eu cyfer yn gyflym.

Wrth drafod, siaradodd rhieni am eu boddhad llwyr â threfniadau a pha mor dda roedd eu plant yn gwneud cynnydd. Bydden nhw`n barod iawn i argymell y Cylch i ddarpar rieni.

Mae trefniadau trosglwyddo da ar waith gyda`r mwyafrif o blant yn dewis parhau â`u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae`r athrawes dosbarth derbyn yn ymweld â`r Cylch yn rheolaidd ac mae`r trosglwyddo yn syml yn y modd mae`r plant yn symud i ystafell gyfagos yn unig.

Mae athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a chynrychiolydd Mudiad Ysgolion Meithrin wedi sefydlu partneriaeth dda â`r Cylch. Mae hyn yn rhoi cefnogaeth a chyngor da i`r Cylch sydd wedi dylanwadu ar wella amgylchedd dysgu`r plant. Bydd y trefniant hyn yn sicrhau hefyd bod y Cylch yn canolbwyntio ar agweddau a nodwyd ar gyfer gwella.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff y staff eu rheoli`n dda. Mae`r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd, gan ystyried diddordebau`r plant. Fel tîm, mae`r staff yn cydweithio`n dda iawn gan gymryd rolau gwahanol yn ôl yr angen. Mae pob un wedi mynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol sydd yn golygu bod y ddarpariaeth wedi gwella. Hefyd, mae`r staff yn wyliadwrus wrth nodi cyflawniad plant ac mae hyn yn ffordd o fesur effaith y gwahanol weithgareddau ar ddysgu`r plant.

Drwyddi draw, mae nifer digonol o adnoddau sydd yn cael eu defnyddio`n briodol ar gyfer bodloni anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw`r

adnoddau a`r gweithgareddau yn herio plant yn ddigonol nac yn annog archwilio pellach.

Mae`r Cylc yn elwa o amgylchedd da yn yr awyr agored sy`n caniatáu i blant ddatblygu eu medrau ar draws yr holl feysydd dysgu.

Drwyddi draw, mae`r plant yn derbyn amrywiaeth dda o brofiadau ac yn datblygu`n dda. Mae`r Cylch yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni oherwydd nifer fach yr ymatebion a gafwyd (llai na 10).

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae pob plentyn yn mwynhau eu hamser yn y Cylch.  Maen nhw`n dangos eu mwynhad wrth iddynt ddod i`r sesiynau ac yn fuan yn cymryd rhan yn weithredol yn yr amrywiaeth o weithgareddau a osodir ar eu cyfer.  Maen nhw`n cael eu cyfarch gan y staff ond yn fuan maent yn cymryd rhan gyda`u cyfoedion mewn gweithgareddau gwahanol.  Mae`r plant yn hunan-hyderus ac yn annibynnol ond yn gwybod ble i ofyn am gyngor.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)